

The Rt Hon Suella Braverman MP
Home Secretary
Home Office
2 Marsham Street
London
SW1P 4DF

Ein Cyf / Our Ref: AD/HW/2319

14 Medi / September 2023

Annwyl Ysgrifennydd Cartref,

Dear Home Secretary,

Pa mor effeithiol mae heddluoedd wrth defnyddio drylliau tanio.

How effective police forces are in the deployment of firearms.

Yn unol â'r statud, ysgrifennaf atoch gyda fy sylwadau ar Adroddiad Arolygaeth Ei Heddluoedd a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi (HMICFRS) ar ba mor effeithiol mae heddluoedd wrth ddefnyddio drylliau tanio.

As required by statute, I am writing to you with my comments on His Majesty's Inspectorate of Constabulary, Fire and Rescue Service (HMICFRS) Inspection of how effective police forces are in the deployment of firearms.

Diben yr arolwg cenedlaethol oedd edrych ar effeithiolrwydd heddluoedd wrth ddefnyddio drylliau tanio. Yn ei dro, mae'n sefydlu a all y cyhoedd fod â hyder ym mholisiâu, strwythurau a phrosesau'r heddlu. Eithriwyd y data a roddwyd gan Heddlu Gogledd Cymru o'r adolygiad oherwydd eu cynghrair drylliau tanio hefo Heddlu Swydd Gaer. Mae holl ddata drylliau tanio ar gyfer Heddlu Swydd Gaer a Heddlu Gogledd Cymru.

The purpose of the national inspection was to examine the effectiveness of forces in deploying firearms and in turn establish whether the public can be confident in police policies, structures and processes. The data provided by North Wales Police was excluded from the review because of their firearms alliance with Cheshire Constabulary. All firearms data is for both Cheshire Constabulary and North Wales Police.

Roedd saith argymhelliad wedi'u nodi gan yr Arolygaeth er mwyn gwella mesurau drylliau tanio hefo tri'n gofyn am weithredu ar unwaith. Mae argymhelliad 8 a 10, a ofynnodd am bresenoldeb y Prif Gwnstabl Cynorthwyol yng nghyfarfodydd y Portffolio Plismona Arfog Cenedlaethol a gwella trosolwg swyddogion o arfdai, wedi'u dyrannu ac maent yn y broses o gael eu cwblhau. Gofynnodd argymhelliad 12 i holl gofnodion gosod arfau gael eu storio ac y gellir eu harchwilio. Rwyf yn fodlon fod yr argymhelliad wedi'i gwblhau.

There were seven recommendations identified by the Inspectorate to improve firearms measures with three requesting action with immediate effect. Both Recommendation 8 and 10 which requested the attendance of the Assistant Chief Constable at the National Armed Policing Portfolio meetings and the improvement in officer oversight of armouries have been allocated and are in the process of being completed. Recommendation 12 requested that all armed deployment records are stored in an auditable and I am content that this recommendation has been completed.

Gofynnodd y pedwar argymhelliad ychwanegol i heddluoedd sicrhau fod offer olrhain ar gyfer cerbydau ymateb arfog ar gael ac wedi'u defnyddio. Gofynnwyd am fynediad at benaethiaid drylliau tanio strategol arbenigol am gyfnod o 24 awr. Gofynnwyd am gyflwyno meini prawf mynediad newydd ar gyfer penaethiaid drylliau tanio ac ymestyn y cwrs penaethiaid. Mae pob argymhelliad wedi'u derbyn gan yr Heddlu. Rwyf yn hyderus fod gwaith ar y gweill er mwyn cwblhau'r argymhellion hyn.

Gwnaf fonitro cynnydd a chwblhad y saith argymhelliad yn fy Mwrdd Gweithredol Strategol. Dyma'r bwrdd lle rwyf yn dwyn y Prif Gwnstabl yn atebol.

The additional four recommendations asked forces to ensure that tracking equipment for armed response vehicles are available and used, that there is access to specialist strategic firearms commanders throughout a 24hour period, that new entry criteria for firearms commanders is introduced and the length of the commander course to be extended. All recommendations have been received by the Force and I am assured that work is ongoing to complete these recommendations.

I will monitor the progress and completion of all seven recommendations at my Strategic Executive Board, this is the board where I hold the Chief Constable to account.

Yn gywir Yours sincerely



Andy Dunbobbin

Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru /North Wales Police and Crime Commissioner